

TYST, ARWEINYDD A CHYFARWYDDWR.

Emyn: 323 *Mawr oedd Crist yn nhragwyddoldeb.*

Darlleniad: Eseia 55:1-6.

'Gwnaf â chwi gyfamod tragwyddol, fy ffyddlondeb sicr i Dafydd,' 3. **Beth oedd y cyfamod rhwng Duw a Dafydd?** Daw'r ateb yn 2 Samuel 7, *"Ni chymeraf fy nhrugaredd oddi wrtho, fel y cymerais hi oddi wrth Saul, ... Sicrheir dy deulu a'th deyrnas am byth o'm blaen; erys dy orsedd yn gadarn hyd byth,"* 15. Addewidion Duw i Dafydd: a) Profi (ei fab) o'i drugaredd yn barhaol. b) Sicrhau llinach frenhinol, gydag aelod o'i deulu yn parhau yn frenin. c) Sefydlu gorsedd barhaol gyda'r Meseia, y Brenin perffaith yn dyfod o'i linach ef - gwireddwyd yn nyfodiad Iesu Grist.

A. TYST.

'Edrych, rhois ef yn dyst i'r bobl,' 4. O ganlyniad i'r berthynas arbennig yma rhwng Dafydd a Duw, buasai yn dyst i gariad a thrugaredd rhyfeddol Duw i'w bobl. Roedd disgwyl i'w bobl Israel, dystio i fawredd Duw i genhedloedd eraill. Mae Dafydd yn gysgod o dyst mwy, sef Iesu Grist. Deall 'tyst' yw un sydd yn rhoi adroddiad cywir a gonest o'r hyn mae wedi ei weld neu glywed. Dyma eiriau Iesu, *"Er mwyn hyn yr wyf fi wedi cael fy*

ngeni, ac er mwyn hyn y deuthum i'r byd, i dystiolaethu i'r gwirionedd," Ioan 18:37. **Pwy wna Iesu dystio amdano?** Duw Ei Dad. Gwna ddangos i ni Duw. *'Nid oes neb wedi gweld Duw erioed; yr unig Un, ac yntau'n Dduw, ... hwnnw a'i gwnaeth yn hysbys,'* Ioan 1:18. Mae Duw y Tad ac Iesu Grist yn un. *"Y mae'r sawl sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad. ... Y geiriau yr wyf fi'n eu dweud wrthyich, nid ohonof fy hun yr wyf yn llefaru; y Tad sy'n aros ynof fi sydd yn gwneud ei weithredoedd ei hun,"* Ioan 14:9-10. Daeth Iesu i dystio i eiriau a gweithredoedd Ei Dad. Mae'n tystio hefyd i'w gymeriad (Ei sancteiddrwydd, cyfiawnder, cariad ac ati), a'i weithredoedd (Ei iachawdwriaeth).

B. ARWEINYDD.

Yn ei hanes roedd Israel wedi derbyn llawer o arweinyddion mawr – Abraham, Moses, Joshua, Samson ac ati. Mewn amser fe ddaeth Dafydd yn arweinydd ar Israel a Jwda, gan sefydlu cenedl gref a chadarn.

Mae Iesu yn arweinydd bendigedig. Nid dwyn gwaredigaeth o ryw wlad neu frenin a wna ond o afael pechod! Mae Iesu yn arwain pobl o gaethiwed pechod (euogrwydd - teimlo'n annigonol) a grym pechod (marwolaeth) a gafael Satan. Gwna Iesu arwain pobl o gyflwr marw yn ysbrydol i fywyd newydd ynddo Ef. Fel

arweinydd gwna hefyd ein harwain i'r dyfroedd bywiol (Ysbryd Glan), at air y bywyd (Beibl) a bywyd o gariad ffyddlon gyda'r Tad. Gwna hefyd ein harwain allan o bethau gwag y byd i brofi trysor rhyfeddol yn y nef rhyw ddydd, (Ioan 10:9). Mae'n arweinydd bendigedig.

C. CYFARWYDDWR.

Cyfarwyddwr (commander), dyma un sydd yn cyfarwyddo, yn rheoli. Dyma oedd Dafydd – roedd yn frenin. Trechodd Dafydd genhedloedd lawer gan eu dwyn dan ei awdurdod, ac felly awdurdod Duw! *'Edrych, byddi'n galw ar genedl nid adweini, a bydd cenedl nad yw'n dy adnabod yn rhedeg atat; oherwydd yr Arglwydd dy Dduw, o achos Sanct Israel, am iddo dy ogoneddu,'* 5. O ganlyniad i'w berthynas gyda Duw, buasai Dafydd yn profi o fendithion Duw. Nid Dafydd yn unig ond y genedl Israel hefyd, a chenhedloedd eraill. Buasai cenhedloedd eraill yn gweld llwyddiant Dafydd, yn filwrol, masnachol ac o ran tiroedd, ac 'yn rhedeg ato.' O ganlyniad buasai'r gwledydd dieithr yma yn dod i gyswllt â ffydd Dafydd, ei Dduw Mawr, ac yn dod dan awdurdod Duw ei hun.

Cysgod oedd Dafydd o'r Brenin Mawr sef Iesu Grist. Dyma gyfarwyddwr gogoneddus, sydd ag awdurdod dros bob dim, yn y nefoedd ac ar y ddaear. Mae'n llywodraethu

dros ei bobl – yn gweithredu er daioni i'r sawl sydd yn ei garu, yn rheoli dros holl elynion ei bobl ac yn eu cadw hyd dragwyddoldeb.

Dyma **Iesu**, tyst ffyddlon i Dduw ei Dad, arweinydd cadarn sy'n arwain ei bobl o gaethiwed pechod i fywyd newydd a chyfarwyddwr doeth, sydd ag awdurdod dros bob dim.

A ydym ni yn ei adnabod? *'Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael, galwch arno tra bydd yn agos,'* 6.

GWEDDI:

O Dduw Dad, a ninnau yn y cyfnod rhwng y Pasg, pan atgyfododd Iesu o'r marw yn fyw, a'r Pentecost, pan wnaeth danfon yr Ysbryd Glân mewn grym ar ei ddilynwyr, helpa ninnau i gofio, mai Ti sydd yn rheoli ac yn llywodraethu ar bob dim yn y pen draw. Fel y gwnaethost droi ofn a phryder yr apostolion gynt yn nerth a hyder, helpa ninnau i beidio â cholli calon, er yr ansicrwydd sydd o'n cwmpas, a chynorthwya ni i fwrw ati i dy wasanaethu di, trwy fod yn barod i helpu eraill. Helpa ninnau i gofio hefyd nad ydwyf wedi ein gadael ar ben ein hunain wedi i Iesu esgyn atat Ti, ond danfonais yr Ysbryd Glân i fod yn gynghorwr i ni ac yn gyfaill wrth ein hochr i'n harwain. Diolch am dy ofal a'th gynhaliath gyson, a pharha i'n cadw'n ddiogel ac yn iach. Yn enw Iesu, Amen.

A WITNESS, A LEADER AND COMMANDER.

Hymn: 905 'Love divine.'

Reading: Isaiah 55:1-6.

'I will make an everlasting covenant with you, my faithful love promised to David,' 3. **What was God's covenant with David?** *"My love will never be taken away from him, as I took it away from Saul. ... Your house and your kingdom shall endure for ever before me; your throne shall be established for ever,"* 2 Samuel 7:15. **What were God's promises to David?** i) God's continued love; ii) A member of his family would remain on the throne; iii) An enduring Kingdom. How? The Messiah would arise from his descendants – this was fulfilled in the coming of Jesus!

A. A WITNESS.

'See, I have made him a witness to the peoples,' 4. As a result of the relationship between David and God, he was to be a witness to God's love for his people, Israel. They in turn were to be a witness to other nations. David, however, was a shadow of a greater witness, Jesus Christ. We understand 'witness' to be a person who gives an honest and correct account of that which he's/she's seen or heard. Jesus declared, *"For this reason I was born, and*

for this I came into the world, to testify to the truth,' John 18:37. **To whom does Jesus testify/witness to?** To God the Father. Jesus reveals to us God. *"No-one has ever seen God, but God the One and Only, who is at the Father's side, has made him known,"* John 1:18. God the Father and Jesus Christ are One! *"Anyone who has seen me has seen the Father. ... The words I say to you are not just my own. Rather, it is the Father, living in me, who is doing his work,"* John 14:9-10. Jesus came to witness to the Father's words and to do his work. Jesus witnesses to the Father's character (His holiness, justice, love, etc.) and the Father's work (salvation and deliverance).

B. A LEADER.

Israel as a nation had many great leaders – Abraham, Moses, Joshua, Samson etc. David was appointed as a leader of the united nations of Israel and Judah, establishing a kingdom that was mighty and respected. Jesus is the most wonderful leader of all. He came not to bring deliverance from another nation or ruler, but to offer freedom from sin (the guilt of sin – the feeling of unworthiness) and the power of sin (death). Jesus leads people from a state of spiritual death to a new life in Him. As a leader, Jesus also leads people to the living waters

(Holy Spirit), the true word of God (the Bible) and to a life of love and joy with the Father. Jesus also leads people from the emptiness of the things of the world to eternal riches in heaven. Truly, he is a wonderful leader.

C. A COMMANDER.

When we consider a commander, we think of a person of authority that rules over a particular situation – e.g. a commander of a ship. David was a commander and ruler over Israel. David conquered many nations and brought them under his authority, and thus under God’s authority. *‘Surely you will summon nations you know not, and nations that do not know you will hasten to you, because of the Lord your God, the Holy One of Israel, for he has endowed you with splendour,’* 5. As a result of David’s relationship with God, he experienced the blessings of God. This was also extended to Israel and to other nations. Other nations would see the splendour of David, his military success, and gains in trade and land, and would ‘hasten to him.’ As a consequence, such nations would come into contact with the faith of David and with his great God, and thus come under God’s authority.

David is a shadow of a greater King, Jesus Christ. He is a great commander, with authority over all things in heaven

and on earth. He rules over His people – he extends goodness to those who love him, he has authority over their enemies and he has promised to keep them safe forever. This is **Jesus**, the faithful witness of the Father, the wonderful leader, who releases people from their sin and the great commander who rules with wisdom over all things. **Do we know this Jesus?** *‘Seek the Lord while he may be found, call on him while he is near,’* 6.

PRAYER: Heavenly Father, at this time, between Easter, when Jesus rose from the dead victorious, and Pentecost, when he sent the Holy Spirit with power upon his followers, help us to remember that you are in control and hold authority over all things. As you turned the apostles’ fear and uncertainty to joy and confidence, help us also not to lose heart, despite the uncertainty around us, and help us to strive to serve you by helping other people. Help us to remember also that we are never alone, though Jesus ascended to your side, because you sent the Holy Spirit to come along side us, to guide and comfort us. Thank you for your continued blessings to us and keep us all well and safe. In Jesus name, Amen.

